

Reference: IR935

Date issued: 24 Rhagfyr 2024

Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais dyddiedig 18 Tachwedd 2024 am wybodaeth sy'n ymwneud â llety gofal byw â chymorth yng Ngogledd Cymru.

Er hwylustod cyfeirio, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol.

- **Unrhyw ddiweddariadau i'r ddogfen *Comisiynu Strategol Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu* a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru, neu ddogfennau mwy diweddar sy'n cynnwys gwybodaeth debyg.** Rwyf wedi cadarnhau gyda'r timau archwilio perthnasol nad oes unrhyw ddiweddariadau wedi'u cynhyrchu ers cyhoeddi'r ddogfen yn 2018, ac nad oes unrhyw ddogfennau sy'n cynnwys data tebyg wedi'u cynhyrchu'n fwy diweddar.
- **Unrhyw wybodaeth i helpu i ddeall y cyllidebau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer llety gofal byw â chymorth gyda staff llawn amser yng Ngogledd Cymru, yn enwedig costau cyfartalog cyfredol fesul claf neu werthoedd contract cyfartalog.** Nid ydym yn cadw gwybodaeth gyfredol o'r math y gofynnwyd amdano. Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, efallai y byddai'n werth cysylltu â'r cyrff cyflenwi perthnasol i gael gwybodaeth am y costau rydych chi'n cyfeirio atynt.

Rydym wedi cyhoeddi rhywfaint o wybodaeth fwy cyffredinol a allai fod o ddiddordeb i chi, yn enwedig o ystyried y cyfeiriad at Ogledd Cymru. Er nad yw'n benodol i oedolion ag anableddau dysgu, gellir cyrchu'r dogfennau canlynol i gael gwybodaeth sy'n ymwneud â chomisiynu lleoliadau cartrefi gofal ychydig flynyddoedd yn ôl:

[Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn | Archwilio Cymru](#)

[Comisiynu Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn | Archwilio Cymru](#)

Hefyd, er nad yw'n canolbwyntio ar lety gofal, mae ein hadroddiad 2022 ar daliadau uniongyrchol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion yn cynnwys cwmpas gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu, a gellir ei weld yma:

Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth